Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Cyfarwyddyd ar Reoliadau yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013 ("y Rheoliadau") yn gosod swyddogaethau ar SAYH mewn perthynas â'i goruchwyliaeth o ymarfer swyddogaethau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) a swyddogion NCA eraill.[1] Mae'r Rheoliadau hefyd yn amlinellu'r fframwaith statudol ar gyfer ymdrin â chwynion, materion ymddygiad a materion marwolaeth neu anaf difrifol sy'n cynnwys swyddogion NCA, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol NCA.

1.2 Mae'r Rheoliadau yn gymwys yn unig mewn perthynas â Chyfarwyddwr Cyffredinol NCA ac i swyddogion NCA sy'n ymarfer swyddogaethau NCA mewn, neu mewn perthynas â, Lloegr a Chymru.

1.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar y system statudol, sydd mewn grym ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yn union cyn 1 Chwefror 2020. Cyhoeddodd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC)[2] Gyfarwyddyd Statudol manwl ar hyn yn 2015.

1.3 Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau allweddol a phwrpas y nodyn cynghori hwn yw darparu cyfarwyddyd pwrpasol i'r NCA. Dylai'r nodyn hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Cyfarwyddyd Statudol[3] i wasanaeth yr heddlu ar ymdrin â chwynion. I gynorthwyo yn hyn, mae'n dilyn yr un strwythur ac yn darparu cyfeiriadau at baragraffau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r nodyn hwn ei hun yn gyfarwyddyd statudol.

1.4 Mae'r nodyn hwn hefyd yn cynnwys manylion ychwanegol i ddarparu eglurder am rai ymholiadau a materion sydd wedi codi mewn ymarfer.

---

[1] Mae adran 26C, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod swyddogaethau ar Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA a swyddogion NCA eraill.
[2] Y sefydliad oedd yn rhagflaenu SAYH.
[3] Mae unrhyw gyfeiriad at gyfarwyddyd statudol yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Gyfarwyddyd Statudol yr IPCC
a gyhoeddwyd yn 2015.

1.5 Mae SAYH hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar ymdrin â honiadau o ymddygiad gwahaniaethol.

## 2. Diffiniadau allweddol

### *Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol*

2.1 Mae'r NCA yn gorff coron a sefydlwyd o dan Rhan 1 y *Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013*. Mae'r NCA yn cynnwys swyddogion NCA, ac mae o dan gyfarwyddyd a rheolaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA. Mae'n cael ei ddosbarthu fel adran anweinidogol.

### *Swyddogaethau*

2.2 Mae'r term "swyddogaethau" yn golygu pob swyddogaeth o unrhyw ddisgrifiad, gan gynnwys pwerau
a dyletswyddau, naill ai wedi'u gosod trwy ddeddf neu'n codi fel arall.[4]

### *Swyddogaethau NCA*

2.2 Mae'r term "swyddogaethau NCA" yn golygu:

- swyddogaethau'r NCA
- swyddogaethau Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA
- swyddogaethau swyddogion NCA eraill[5]

### *Swyddogaeth gwyno'r NCA*

2.3 Mae'r term "swyddogaeth gwyno'r NCA" yn golygu swyddogaeth mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu unrhyw swyddog NCA arall.[6]

### *Swyddog NCA[7]*

2.4 Mae'r term "swyddog NCA" yn golygu:

(a) unigolyn sydd wedi cael ei benodi o dan baragraff 9 o Atodlen i *Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013* fel swyddog NCA
(b) unigolyn sydd wedi cael ei secondio i'r NCA i wasanaethu fel swyddog NCA o dan baragraff 13 o Atodlen 1 i *Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013*; a
(c) NCA arbennig

[4] Adran 16(1), *Deddf Troseddu a Llysoedd 2013*.
[5] Adran 16(1), *Deddf Troseddu a Llysoedd 2013*.

[6] Adran 26C(9), *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

[7] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

2.5 Mae'r Rheoliadau yn gymwys i holl swyddogion NCA ac i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA.

***Uwch swyddog***[8]

2.6 Mae uwch swyddog yn golygu swyddog NCA Gradd 1 o leiaf.

***Safonau NCA***[9]

2.7 Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at "Safonau NCA", sef yr ymddygiadau a'r safonau y mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA a swyddog NCA gydfymffurfio â nhw o dan bolisïau ymddygiad a pherfformiad NCA (er enghraifft, gwerthoedd NCA a, lle'n gymwys i swyddog NCA, cod y gwasanaeth sifil).

***Achosion disgyblu***

2.8 Ar gyfer Dyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA a swyddogion NCA, mae unrhyw gyfeiriad at achos disgyblu yn golygu unrhyw achos neu broses reoli sy'n ystyried ymddygiad unigolyn i benderfynu os yw'n gamymddwyn neu'n gamymddwyn difrifol a pha gamau, os o gwbl, a gymerid o ganlyniad.[10]

***Achosion perfformiad anfoddhaol***

2.9 Ar gyfer Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA a swyddogion NCA, mae unrhyw gyfeiriad at achos disgyblu yn golygu unrhyw achos neu broses reoli sy'n ystyried perfformiad unigolyn i benderfynu os yw'n anfoddhaol neu beidio neu ba gamau, os o gwbl, a gymerir o ganlyniad.[11]

## 3. Gwybodaeth gyffredinol

***Darpariaethau trawsnewidiol***[12]

3.1 Daeth y Rheoliadau i rym ar 7 Hydref 2013; yr un diwrnod ag y dechreuodd yr NCA weithredu. Pan ddaeth mater i sylw'r Asiantaeth Troseddau Difrifol a Threfniadol (SOCA) cyn 7 Hydref 2013, ni fydd yn cael ei drin o dan y Rheoliadau. Bydd y mater yn cael ei drin yn lle hynny yn

---

[8] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [9] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [10] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion ac Ymddygiad) 2013. [11] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [12] Rheoliad 3, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

unol â'r cytundeb, a wnaed o dan Adran 26A o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, rhwng SOCA a'r IPCC.

***Dirprwyo[13]***

3.2 Gall Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA ddirprwyo unrhyw un neu'r holl bwerau neu ddyletswyddau a roddir i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA yn y Rheoliadau i swyddog NCA sy'n:

- uwch swyddog lle mae cwyn neu fater ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad uwch swyddog
- swyddog Gradd 2 o leiaf mewn unrhyw achos arall

3.3 Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA beidio â dirprwyo unrhyw bwerau neu ddyletswyddau i swyddog NCA y gallai ei gyfranogaeth yn y rôl honno achosi pryder yn rhesymol am os gallai'r swyddog NCA hwnnw weithredu'n ddiduedd, naill ai oherwydd bod y swyddog NCA hwnnw wedi gweithredu fel swyddog ymchwilio yn yr achos neu fel arall.

3.4 Gall Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA ddirprwyo'r cwbl neu ran o'i bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas a'r datrysiad lleol o gwynion o dan y Rheoliadau i unrhyw swyddog NCA.

3.5 Mae SAYH yn disgwyl i unrhyw ddirprwyo gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA gael ei amlinellu mewn cynllun dirprwyo i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar lefel briodol gan swyddogion NCA. Dylai fod gan y swyddogion hyn lefel addas o hyfforddiant a phrofiad, ac yn ateb y gofynion didueddrwydd uchod.

***Cwynion, materion ymddygiad a materion DSI yn ymwneud â chyfuniad o swyddogion NCA a phobl sy'n gwasanaethu â'r heddlu***

3.6 Lle mae cwyn, mater ymddygiad neu fater DSI sy'n ymwneud â chyfuniad o swyddogion NCA a phobl sy'n gwasanaethu â'r heddlu, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â swyddogion NCA yn unig. Prif swyddog yr heddlu perthnasol fydd yr awdurdod priodol ar gyfer unrhyw swyddogion heddlu. Er bod yr NCA a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ymchwiliad, dylai Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA (neu ei ddirprwy/dirprwy) yn unig wneud penderfyniadau a chyrraedd casgliadau am swyddog NCA. Mater i brif swyddog yr heddlu fydd gwneud penderfyniadau (er enghraifft os oes achos i'w ateb) ar gyfer unrhyw swyddogion heddlu.

[13] Rheoliad 80, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

***Darparu gwybodaeth i'r SAYH***

3.7 Mae *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn caniatáu i swyddog NCA (gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA) ddatgelu gwybodaeth i SAYH, neu i unigolyn sy'n gweithredu ar ran SAYH, at ddibenion ymarfer gan SAYH o swyddogaeth gŵyn NCA.[14]

3.8 Yn ogystal, o dan y Rheoliadau, mae gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA a swyddogion NCA ddyletswydd i ddarparu pob gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar y SAYH i'w galluogi i gyflawni ei swyddogaethau (cyhyd â bod hyn yn ymarferol).[15] Dylai unrhyw sensitifrwydd yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir gael ei gyfathrebu i'r ymchwiliwr arweiniol neu reolwr gwaith achos i sicrhau bod SAYH yn ymwybodol o hyn. Gall SAYH beidio â datgelu gwybodaeth a ddarperir gan yr NCA ac eithrio fel y caniateir gan y Rheoliadau neu a ragnodir fel arall trwy gyfraith.[16] Bydd yr eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth yn cael eu hystyried gan SAYH cyn i unrhyw wybodaeth gael ei chyfathrebu i'r achwynydd neu unrhyw unigolyn arall.[17]

3.9 Mae gallu swyddog NCA yn ogystal â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA i ddatgelu gwybodaeth yn wirfoddol i SAYH, a'u dyletswydd i wneud hynny, yn destun cyfyngiadau a amlinellir yn Atodlen 7 *Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013*.[18]

***Cwynion a materion ymddygiad yn ymwneud ag unigolyn nad yw'n gweithio i'r NCA rhagor.***

3.10 Mae'n rhaid i gwynion a materion ymddygiad sy'n ymwneud ag ymddygiad swyddog NCA sydd wedi gadael yr NCA ers adeg yr ymddygiad gael eu trin yn yr un ffordd o dan y Rheoliadau ag unrhyw gŵyn neu fater ymddygiad arall. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i'r awdurdod priodol benderfynu os dylai achos disgyblu gael ei ddwyn yn erbyn y swyddog NCA hwnnw.[19]

---

[14] Adran 26C(5), *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

[15] Rheoliad 11, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [16] Rheoliad 11, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [17] Rheoliad 16, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

[18] Adran 12, *Deddf Troseddu a Llysoedd 2013*.

[19] Rheoliad 75, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

## 4. Ystyriaethau Cyfarwyddyd Statudol

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu pa rannau o Gyfarwyddyd Statudol SAYH i'r gwasanaeth heddlu ysy’n cyfateb i system yr NCA (er bod rhai gwahaniaethau mewn terminoleg a chyfeiriadau cyfreithiol).

| Maes | Rhifau paragraff | Perthnasol i'r NCA | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **Adran 2: Hyrwyddo mynediad** | | | |
| Pwysigrwydd system hygyrch | 2.2-2.4 | Y | |
| Darparu gwybodaeth a mynediad | 2.5-2.10 | Y | |
| Achwynwyr sydd angen cymorth ychwanegol | 2.11-2.16 | Y | |
| Cwynion a wnaed gan blant a phobl ifanc o dan 16 | 2.17-2.20 | Y | |
| **Adran 3: Cwynion** | | | |
| Triniaeth cychwynnol â chwyn | 3.3-3.8 | Y | |
| Diffiniad o gŵyn | 3.9-3.10 | Y | |
| Pwy sy'n gallu cwyno? | 3.11-3.16 | Y, ond nid y wybodaeth mewn blychau testun | Gweler adrannau 4.4 a 4.5 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn, dylai'r eithriad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.14 ddarllen fel cyfeiriad at adran 4.5 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn. |
| Cofnodi cwyn | 3.17-3.26 | Y, ac eithrio paragraff 3.26 | Nid yw ymddygiad swyddogion NCA yn syrthio o dan y rheoliadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwynion am ymddygiad gwahaniaethol | 3.27-3.30 | Y | |
| Am bwy y gellircwyno? | 3.31-3.34 | N | Gellir gwneud cwynion am Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA a swyddogion NCA - gweler adran 2.1 o'r nodyn cyfarwyddyd. Gweler hefyd adrannau 3.3 a 3.5 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn. |
| Penderfyniadau i beidio â hysbysu neu gofnodi cwyn. | blwch testun p24 | Y | |
| Penderfynu sut i ymdrin â chwyn | 3.35-3.38 | Y | |
| **Adran 4: Datgymhwyso** | | | |
| Pryd all datgymhwyso gael ei gyflawni gan yr awdurdod priodol | blwch testun p25 | Y | |
| Pan fydd angen cael caniatâd yr IPCC | 4.3-4.6 | Y | |
| Seiliau ar gyfer datgymhwyso | 4.7-4.19 | Y | |
| Datgymhwyso rhannol | 4.20 | Y | |
| Apeliadau yn erbyn y penderfyniad i ddatgymhwyso'r achwynydd | 4.21 | Y | |
| **Adran 5: Triniaeth leol** | | | |
| Paragraffau cyflwyniadol | 5.1-5.7 | Y | Gweler hefyd adran 4.6 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn.*Pwy* |
| Datrysiad lleol | 5.8-5.9 | Y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwynion addas ar gyfer datrysiad lleol | 5.10-5.12 | Gall Y | *gyflawni datrysiad lleol*.<br><br>Sylwch hefyd mai'r gweithdrefnau a grybwyllir ym mharagraff 5.9 fydd y |
| Datrysiad lleol yn dilyn atgyfeiriad | 5.13-5.14 | Y | |
| Ffyrdd o ddatrys y gŵyn | 5.15-5.16 | Y | gweithdrefnau NCA perthnasol ar gyfer ymdrin â materion yn ymwneud â pherfformiad. |
| Cynlluniau gweithredu | 5.17-5.18 | Y | |
| Cyfathrebu | 5.19 | Y | |
| Datganiadau | 5.20 | Y | |
| Apêl yn erbyn datrysiad lleol | 5.21-5.22 | Y | |
| Nid yw'n bosibl datrys y gŵyn yn lleol | 5.23-5.25 | Y | |
| **Adran 6: Materion ymddygiad** | | | |
| Diffiniad o fater ymddygiad | 6.3-6.4 | Y | |
| Cofnodi mater ymddygiad | 6.5-6.10 | Y | |
| Materion ymddygiad yn cynnwys honiadau o wahaniaethu | 6.11 | Y | |
| Materion ymddygiad yn ymwneud â phobl nad ydynt yn gweithio i'r heddlu rhagor | 6.12 | Y | |
| **Adran 7: Materion marwolaeth neu anaf difrifol** | | | |
| Diffiniad o fater DSI | blwch testun p40 | Y | |
| Cofnodi mater DSI | 7.3 | Y | |

| Adran 8: Atgyfeiriadau | | | |
|---|---|---|---|
| Materion sy'n gorfod cael eu hatgyfeirio at SAYH, gan gynnwys diffiniadau o feini prawf atgyfeirio gorfodol a galw i mewn | 8.3-8.21 | Y | Mae rhannau o'r adran hon yn cael eu cynnwys yn y nodyn cyfarwyddyd hwn. Gweler hefyd adrannau 4.11 a 4.12 o nodyn cyfarwyddyd NCA am wybodaeth ychwanegol. |
| Terfynau amser ar gyfer atgyfeirio | 8.22-8.24 | Y | |
| Atgyfeiriadau gwirfoddol | 8.25-8.26 | Y | |
| Atgyfeirio cwynion am gyfarwyddyd a rheolaeth | 8.27 | N | |
| Hysbysu atgyfeiriad | Blychau testun p49 | Y | |
| Penderfynu os a sut y dylai mater gael ei ymchwilio | 8.28-8.29 | Y | |
| **Adran 9: Ymchwiliadau** | | | |
| Pwrpas ymchwiliad | 9.2 | Y | Nid oes rhaid i ymchwiliad gyrraedd casgliad am os oes perfformiad anfoddhaol. |
| Penodiad unigolyn i gyflawni'r ymchwiliad | 9.3-9.6 | Y (ac eithrio ail flwch testun) | Yn hytrach nac ail flwch testun gweler, adran 4.14 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn. |
| Cylch gorchwyl | 9.7-9.9 | Y | |
| Cadw llwybr archwiliad | 9.10-9.13 | Y | |
| Cwmpas yr ymchwiliad | 9.14-9.16 | Y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Honiadau yn cynnwys gwahaniaethu | 9.17-9.23 | Y | |
| Materion marwolaeth neu anaf ddifrifol yn troi i faterion ymddygiad | 9.24-9.28 | Y | |
| Gofynion arbennig | 9.29-9.34 | Y | Gellir cymhwyso gofynion arbennig (lle'n briodol) i unrhyw ymchwiliad cwyn mewn perthynas â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA, neu Swyddog NCA. |
| Asesiadau dwyster | 9.35-9.42 | 9.36-9.38 yn unig | Gweler adran 4.15 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn am ragor o wybodaeth am ddwyster asesiadau mewn perthynas â'r NCA. |
| Hysbysiadau o ymchwiliad | 9.43 | N | Gweler adran 4.16 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn. |
| Cynrychiolaethau i'r ymchwiliwr | 9.44 | Y | Y cyfnod amser ar gyfer darparu unrhyw ddatganiad neu ddogfen berthnasol fydd y cyfnod amser a amlinellir yn hysbysiad yr ymchwiliad. |
| Cyfweliadau | 9.45-9.51 | Y | |
| Pŵer i atal ymchwiliad neu unrhyw weithred arall | 9.52-9.60 | Y | |
| Ailgychwyn cwyn ar ôl achos troseddol | 9.61-9.63 | Y | |
| Atal swyddogion a chwnstabliaid arbennig | 9.64 | N | Nid yw rheoliadau NCA yn cwmpasu ataliad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darparu gwybodaeth / cyfathrebu | 9.65-9.72 | Y | Gweler adran 4.18 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn. |
| **Adran 10: Terfyniadau** | | | |
| Pryd all ymchwiliad gael ei derfynu gan yr awdurdod priodol? | blwch testun p68 | Y | |
| Pryd mae angen cael caniatâd yr IPCC | 10.2-10.3 | Y | |
| Gofyniad i gael cynrychiolaethau gan yr achwynydd | 10.4 | Y | |
| Seiliau ar gyfer terfynu | 10.5-10.15 | Y | |
| Hysbysu | blwch testun p72 | Y | |
| Cam i'w gymryd yn dilyn terfyniad | 10.16-10.17 | Y | |
| Apêl yn erbyn y penderfyniad i derfynu | 10.18 | Y | |
| **Adran 11: Dod â'r ymchwiliad i ben** | | | |
| Adroddiad yr ymchwiliad gan gynnwys cynnwys a chasgliadau | 11.2-11.41 | Y | |
| Beirniadaeth | 11.42-11.43 | Y | |
| Pwy sy'n derbyn yr adroddiad? | blwch testun p84 | Y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beth mae 'r IPCC yn disgwyl i'r awdurdod priodol wneud â'r adroddiad? | 11.44-11.48 | Y | |
| Canlyniadau ymchwiliad marwolaeth neu anaf difrifol | 11.49-11.51 | Y | |
| Cyhoeddiad | 11.52 | Y | |
| **Adran 12: Gweithredu ar ôl yr ymchwiliad** | | | |
| Cyfathrebu â'r achwynydd ac unigolion â diddordeb ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben | 12.3-12.9 | Y | |
| Ymddiheuriadau | 12.10-12.14 | Y | |
| Canlyniadau i unigolion gan gynnwys honiadau yn ymwneud â gwahaniaethu, gweithdrefnau achosion arbennig, gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol, gwrandawiadau cyhoeddus ac achosion troseddol | 12.15-12.43 | 12.18-12.24 a 12.37-12.43 | Bydd canlyniadau i unigolion yn unol â phrosesau disgyblaethol a pherfformiad yr NCA. |
| Dysgu gwersi | 12.44-12.58 | Y | |
| Argymhellion IPCC o dan baragraff 28A o Atodlen 3 | 12.59-12.63 | N | Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys yn rheoliadau'r NCA |
| Achosion cwest | 12.64-12.67 | Y | |

| Adran 13: Apeliadau | | | |
|---|---|---|---|
| Egwyddorion ymdrin ag apeliadau | 13.2-13.10 | Y | |
| Pwy sy'n ystyried yr apêl? | 13.11-13.17 | Y | |
| Apeliadau i'r prif swyddog gan gynnwys dirprwyo a hysbysu | 13.18-13.28 | Y | |
| Apeliadau i'r IPCC | 13.29-13.30 | Y | |
| Dilysrwydd apêl | 13.31-13.41 | Y, ac eithrio 13.34 | |
| Apeliadau yn erbyn methiant i hysbysu neu gofnodi cwyn | 13.42 | Y | Gweler adran 4.19 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn. |
| Apeliadau yn erbyn y penderfyniad i ddatgymhwyso | 13.43-13.60 | Y | |
| Apeliadau yn erbyn canlyniad datrysiad lleol neu ganlyniad cwyn wedi'i thrin heblaw am yn unol ag Atodlen 3 PRA 2002 | 13.61-13.67 | Y | |
| Apêl yn erbyn y penderfyniad i derfynu | 13.68-13.79 | Y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Apeliadau yn erbyn ycmchwiliad | 13.80-13.107 | Y | Gweler hefyd adran 4.21 y nodyn cyfarwyddyd hwn - mae’r hawl hon i apelio yn cynnwys ystyried os yw’r penderfyniad ynghylch os oes achos i’w ateb neu peidio yn briodol ond nid y gwahaniaeth rhwng camymddwyn a chamymddwyn difrifol. |
| **Adran 14: Casglu a monitro data** | | | |
| Cyfrifoldebau'r prif swyddog | 14.5-14.8 | Y | |
| Cyfrifoldebau'r corff plismona lleol | 14.9-14.12 | N | |
| Fframwaith perfformiad system gwynion yr heddlu. | 14.13-14.16 | N | Mae data yn cael ei gasglu ar wahân ar gyfer achosion sy'n cynnwys yr NCA, ond maen nhw'n cael eu cyhoeddi yn adroddiad blynyddol yr IPCC. |

## Adran 1 o'r Cyfawyddyd Statudol: Cyflwyniad

### *Awdurdod priodol*[20]

4.1 Mae'r awdurdod priodol yn gyfrifol am weithredoedd a phenderfyniadau allweddol penodol o dan y rheoliadau.

| **Unigolyn dan sylw** | **Awdurdod priodol** |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA | Ysgrifennydd Parhaol i'r Swyddfa Gartref |
| Swyddog NCA | Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA |
| Unigolyn yn gwasanaethau â'r heddlu ar secondiad i'r NCA | Y prif swyddog neu gorff plismona lleol a fyddai'n awdurdod priodol o dan *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*[21] Gall yr awdurdod priodol, fodd bynnag, drefnu i'r Ysgrifennydd Parhaol neu Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA gyflawni swyddogaethau'r awdurdod priodol yn ystod y secondiad.[22] |
| Unrhyw unigolyn arall ar secondiad i'r NCA | Yr unigolyn a fyddai wedi bod â chyfarwyddyd a rheolaeth drostynt os nad ar gyfer y secondiad. |

### *Pŵer yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Swyddfa Gartref i roi cyfarwyddiadau i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA*[23]

4.2 Lle mae'n ymddangos i'r ysgrifennydd Parhaol nad yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA wedi cydymffurfio â rhwymedigaeth sydd wedi codi gan neu o dan y Rheoliadau neu sydd wedi mynd yn groes i rwymedigaeth, gall yr Ysgrifennydd Parhaol gyfarwyddo Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA i gymryd pa gamau bynnag mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn meddwl sy'n briodol. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA gydymffurfio â'r fath gyfarwyddyd.

[20] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.
[21] Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*
[22] Rheoliad 2(2), Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.
[23] Rheoliad 9(3)-(5), Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

## Adran 3 y Cyfarwyddyd Statudol: Cwynion

### *Cynnwys y gŵyn*

4.3 Mae'n rhaid i gŵyn fod am naill ai ymddygiad Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu swyddog NCA - hynny yw, mae'r gŵyn mewn perthynas â neu am ymddygiad sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu swyddog NCA sy'n gweithredu swyddogaethau NCA.

### *Pwy sy'n gallu gwneud cwyn?*

4.4 Gall cwyn gael ei wneud gan un o'r canlynol yn unig:

- aelod o'r cyhoedd sy'n honni y digwyddodd yr ymddygiad mewn perthynas ag ef neu hi
- aelod o'r cyhoedd sy'n honni ei fod/bod wedi cael ei effeithio/heffeithio'n andwyol gan yr ymddygiad, er na ddigwyddodd mewn perthynas ag ef neu hi
- aelod o'r cyhoedd sy'n honni iddo/iddi dystio i'r ymddygiad
- unigolyn yn gweithredu ar ran rhywun sy'n syrthio o fewn unrhyw un o'r tri chategori uchod

4.5 Gall unigolyn gael ei ystyried yn cael ei awdurdodi/hawdurdodi i weithredu ar ran un arall yn unig at ddibenion gwneud cwyn os yw ef neu hi yn gallu cynhyrchu cydsyniad ysgrifenedig gan yr unigolyn hwnnw.[24]

4.6 Gall person nad yw'n dod o fewn y categorïau uchod godi pryder i'r NCA a gellir ymchwilio i'r pryder, ond ni ddylai gael ei thrin fel cwyn at ddibenion y Rheoliadau. Ni fydd gan yr unigolyn a gododd y pryder unrhyw hawliau statudol achwynydd.

### *Cwynion gan swyddogion NCA*

4.7 Ni all Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA na swyddog NCA wneud cwyn am ymddygiad swyddog NCA arall sy'n syrthio o dan y Rheoliadau os digwyddodd yr ymddygiad tra roedd y swyddog hwnnw o'r NCA neu Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA ar ddyletswydd.[25] Nid yw hyn yn golygu bod Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu swyddog NCA ddim yn gallu codi pryderon am rywbeth a ddigwyddodd tra bod rhywun ar ddyletswydd. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA na swyddog NCA unrhyw un o hawliau statudol achwynydd ond gallant, os yn briodol, gael eu trin fel unigolyn â diddordeb.

[24] Rheoliad 8, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.
[25] Rheoliad 8(4), Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

## Adran 5 y Cyfarwyddyd Statudol: Ymdriniaeth leol

### *Pwy sy'n gallu cyflawni'r datrysiad lleol?*

4.8 Gall yr awdurdod priodol benodi swyddog NCA i gyflawni'r datrysiad lleol o gŵyn.[26]

## Adran 8 y Cyfarwyddyd Statudol: Atgyfeiriadau

### *Cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio i'r SAYH[27]*

4.9 Mae'n rhaid i awdurdodau priodol gyfeirio at y SAYH:

- cwynion sy'n honni bod yr ymddygiad y cwynir amdano wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol
- cwynion sy'n syrthio o fewn y meini prawf atgyfeirio gorfodol (gweler paragraff 4.10)
- cwynion y mae'r SAYH yn gofyn i gael eu hatgyfeirio os yw'r gŵyn yn cael ei hymchwilio eisoes gan unrhyw unigolyn neu os yw'r SAYH wedi ei hystyried

### *Materion ymddygiad y mae'n rhaid eu cyfeirio at y SAYH.[28]*

4.10 Mae'n rhaid i awdurdodau priodol gyfeirio materion ymddygiad cofnodadwy at y SAYH sy'n:

- perthyn i unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau mewn neu o ganlyniad i unigolyn wedi marw neu wedi dioddef anaf difrifol
- syrthio o fewn y meini prawf atgyfeirio gorfodol (gweler paragraff 4.10)
- cwynion y mae'r SAYH yn gofyn i gael eu hatgyfeirio os yw'r gŵyn yn cael ei hymchwilio eisoes gan unrhyw unigolyn neu os yw'r SAYH wedi ei hystyried

### *Atgyfeiriad materion marwolaeth neu anaf difrifol (DSI)*

4.11 Mae'n ddyletswydd yr awdurdod priodol i atgyfeirio pob mater DSI i'r SAYH.[29]

4.12 Mae mater DSI yn cyfeirio at unrhyw amgylchiadau (heblaw bod yr amgylchiadau yn destun cwyn neu wedi bod neu'n gyfystyr â mater ymddygiad) mewn, neu o ganlyniad ohono, mae unigolyn wedi marw neu ddioddef anaf difrifol ac:

---

[26] Rheoliad 26, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [27] Rheoliad 22, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [28] Rheoliad 32, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [29] Rheoliad 36, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

- ar adeg y farwolaeth neu anaf difrifol roedd yr unigolyn wedi cael ei arestio gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu swyddog NCA ac nid oedd wedi cael ei ryddhau, neu roedd yr unigolyn, ar yr adeg berthnasol, wedi cael ei gadw fel arall yn nalfa Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu swyddog NCA; neu
- ar neu cyn adeg y DSI, cafodd yr unigolyn gysylltiad o unrhyw fath - yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol - â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA neu swyddog NCA oedd yn gweithredu yng ngweithrediad ei ddyletswyddau ef neu ei dyletswyddau hi, ac mae awgrym y gall y cysylltiad fod wedi achosi - naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol - neu wedi cyfrannu at y DSI. Fodd bynnag, mae'r is-gategori hwn yn eithrio cysylltiad unigolyn a ddioddefodd yr anaf DSI tra'i fod ef neu hi yn gweithredu yng ngweithrediad ei ddyletswyddau ef neu ei dyletswyddau hi.[30]

### *Meini prawf atgyfeirio gorfodol[31]*

4.13 Mae'n rhaid i'r awdurdod priodol atgyfeirio cwynion a materion ymddygiad at y SAYH sy'n cynnwys honiadau o ymddygiad sy'n golygu:

- ymosodiad difrifol, fel y diffinnir mewn cyfarwyddyd a ddosbarthwyd gan y SAYH
- trosedd rywiol ddifrifol, fel y diffinnir mewn cyfarwyddyd a ddosbarthwyd gan y SAYH
- llygredd difrifol, fel y diffinnir mewn cyfarwyddyd a ddosbarthwyd gan y SAYH
- camwedd neu ymddygiad troseddol sy'n dueddol o arwain at achos camymddygiad ac sydd, yn y naill achos a'r llall, yn cael ei waethygu gan ymddygiad gwahaniaethol ar sail hil, rhyw crefydd neu statws arall unigolyn a adnabyddir mewn cyfarwyddyd SAYH
- trosedd berthnasol, neu
- gwynion neu faterion ymddygiad yr honnwyd eu bod wedi codi o'r un digwyddiad ag unrhyw beth sy'n syrthio o fewn y meini prawf hyn

4.14 Mae'n rhaid i awdurdod priodol hefyd atgyfeirio cwynion sy'n codi o'r un digwyddiad y mae cwyn amdano sy'n honni yr arweiniodd yr ymddygiad y cwynwyd amdano at farwolaeth neu anaf ddifrifol.

4.15 Gellir canfod darn o'r Cyfarwyddyd Statudol sy'n darparu diffiniadau fwy llawn o'r meini prawf atgyfeirio gorfodol yn Atodiad 1 o'r nodyn cyfarwyddo hwn.

### *Pwy sy'n gallu gwneud atgyfeiriad?*

4.16 Gall atgyfeiriad gael ei wneud gan yr awdurdod priodol. Lle mai Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA yw'r awdurdod priodol, gall yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Swyddfa Gartref hefyd atgyfeirio cwynion neu faterion ymddygiad cofnodadwy sydd naill ai heb ei atgyfeirio neu nad oes gofyn iddo gael ei atgyfeirio gan yr awdurdod priodol os yw'r Ysgrifennydd Parhaol yn ystyried y byddai atgyfeiriad yn

[30] Rheoliad 8(7)-(10), Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [31] Rheoliadau 22 a 32, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

briodol oherwydd difrifoldeb y cynnwys neu unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill.[32]

### *Gwneud atgyfeiriad*

4.17 Mae cylch gorchwyl y SAYH wedi'i amlinellu gan y Rheoliadau sy'n canolbwyntio ar weithredoedd neu fethiannau swyddogion NCA, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA. Gall y SAYH edrych ar faterion ehangach yn unig a dysgu lle mae'n codi o achos unigol lle mae cwyn, mater ymddygiad neu fater DSI wedi cael ei gofnodi. Gellir atgyfeirio unrhyw gŵyn neu fater ymddygiad at SAYH yn wirfoddol, ac mewn amgylchiadau lle mae diddordeb cyhoeddus a phryder sylweddol dylai hyn gael ei ystyried. Fodd bynnag, nid oes angen i fater gael ei adnabod a'i gofnodi fel naill ai gŵyn na mater ymddygiad cyn atgyfeirio. Yn neilltuol, er nad yw'n orfodol i swyddog(ion) penodol fod wedi cael eu lleoli a'u hadnabod er mwyn i fater ymddygiad gael ei gofnodi, mae'n ofyniad i adnabod yr ymddygiad yr honnir sydd wedi torri safonau'r NCA o ymddygiad proffesiynol.

### *Terfynau amser ar gyfer atgyfeirio*

4.18 Mae'n rhaid i atgyfeiriad gorfodol gael ei wneud heb oedi ac, mewn unrhyw achos, heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod ar ôl y diwrnod y daeth yn eglur gyntaf i'r awdurdodpriodol ei fod yn fater y mae'n rhaid ei atgyfeirio[33]

## Adran 9 o'r Cyfarwyddyd Statudol: Ymchwiliadau

### *Penodiad unigolyn i gyflawni'r ymchwiliad*

4.19 Gall yr awdurdod priodol benodi swyddog NCA neu unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu i gyflawni'r ymchwiliad. Mewn ymchwiliadau wedi'u rheoli a'u goruchwylio, bydd hyn yn ddarostyngedig i gytundeb SAYH. [34]

4.20 Fodd bynnag, mae penodiad swyddog ymchwilio yn ddarosyngedig i nifer o gymwsterau pwysig. Y rhain yw:

(i) mae'n rhaid fod gan swyddog ymchwilio lefel briodol o wybodaeth, sgiliau a phrofiad i gynllunio a rheoli'r ymchwiliad

---

[32] Rheoliad 22 a 23, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [33] Rheoliadau 22, 32 a 36, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.
[34] Rheoliadau 41-43, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

(ii) mae'n rhaid i'r swyddog ymchwilio beidio â gweithio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o dan reolaeth yr unigolyn sy'n cael ei ymchwilio

(iii) lle mae ymchwiliad yn ymwneud ag uwch swyddog, mae'n rhaid i'r swyddog ymchwilio beidio â bod yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA

(iv) mae'n rhaid i'r swyddog ymchwilio beidio â chael ei benodi os gallai ei gyfranogaeth ef neu ei chyfranogaeth hi yn y rôl honno achosi pryder rhesymol am a allai ef neu hi weithredu'n ddiduedd[35]

***Gofynion arbennig ac asesiadau dwyster***

4.21 O dan y Rheoliadau, cyfeirir at hyn fel "gweithdrefn arbennig", ni ddylid cymysgu hyn â'r gweithdrefnau a gyflymir ar gyfer "achosion arbennig".

4.22 Os, yn ystod cwrs ymchwiliad i gŵyn, yw'n ymddangos i'r unigolyn sy'n ymchwilio bod awgrym y gall yr unigolyn mae'r ymchwiliad yn ymnweud â'i ymddygiad fod wedi:

- cyflawni trosedd, neu
- ymddwyn mewn modd a fyddai’n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu

yna mae'n rhaid i'r ymchwiliwr ardystio'r ymchwiliad fel un darostyngedig i ofynion arbennig. Mae'n rhaid iddo wedyn wneud asesiad dwyster.

4.23 Diffinnir "asesiad difrifoldeb" ar gyfer y Rheoliadau fel "asesiad a fyddai'r ymddygiad, os caiff ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn neu gamymddwyn difrifol". Nid yw'n cynnwys gwneud unrhyw asesiad am ba ffurf y gallai unrhyw achos disgyblu ei gymryd.

4.24 Mae'r un peth yn gymwys i asesiadau dwyster diwygiedig.[36]

***Hysbysiad o ymchwiliad[37]***

4.25 Y safonau i gyfeirio atynt yn yr hysbysiad yw "safonau NCA".

4.26 Mae'n rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig a chydymffurfio â gofynion y rheoliad 49(7).

4.27 Ni ddylai'r hysbysiad hwn gynnwys ffurf debygol unrhyw achos camymddwyn.

---

[35] Rheoliad 39, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [36] Rheoliad 49, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013. [37] Rheoliad 49, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol

(Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

4.28 Dylai'r hysbysiad roi hawl i geisio cyngor gan yr undeb llafur neu unrhyw gorff arall sy'n cynrychioli buddiannau'r unigolyn dan sylw (gall hefyd gael ffrind NCA (gweler paragraff 4.17)

4.29 Ni fanylir ar y terfyn amser ar gyfer darparu cynrychiolaethau i'r ymchwiliwr yn y Rheoliadau, yn hytrach mae'n dweud: "y fath gyfnod fel y pennir gan yr NCA". Dylid defnyddio'r deg diwrnod gwaith a ganiateir i'r rhai sy'n gwasanaethu'r heddlu gan Reoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 a'r rheoliadau cysylltiedig fel man cychwyn ar gyfer pennu'r cyfnod hwn, er y gall yr ymchwilydd ymestyn y cyfnod hwn os oes angen.

4.30 Mewn ymchwiliad wedi'i reoli, dylai'r ymchwiliwr ymgynghori ag ymchwiliwr rheoli SAYH am gynnwys yr hysbysiad, a ddylai cyflwyno'r hysbysiad gael ei oedi, neu unrhyw adolygu o'r asesiad dwyster.

### *Ffrind NCA*[38]

4.31 Gall swyddog NCA neu Gyfarwyddwr Cyffrerdinol yr NCA gael swyddog NCA arall neu swyddog undeb llafur nad yw'n rhan fel arall yn y mater fel "ffrind NCA",

### *Eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r achwynydd ac unigolion â diddordeb*[39]

4.32 Nid yw'r ddyletswydd i gadw'r achwynydd ac unigolion â diddordeb yn wybodus yn gymwys mewn amgylchiadau lle mae peidio â datgelu yn:

(i) angenrheidiol i atal datgelu gwybodaeth cynamserol neu amhriodol sy'n berthnasol i, neu a all gael ei ddefnyddio mewn, unrhyw achos troseddol gwirioneddol neu arfaethedig

(ii) angenrheidiol i atal datgelu gwybodaeth mewn unrhyw amgylchiadau lle mae peidio â'i datgelu:

- er budd diogelwch cenedlaethol
- at ddibenion atal neu ddarganfod trosedd, neu'r arestio neu erlyn o droseddwyr
- yn ofynnol ar seiliau cymesuredd; neu
- yn angenrheidiol fel arall er budd cyhoeddus

[38] Rheoliad 53, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.
[39] Rheoliad 16, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

4.33 Mae'n rhaid i'r awdurdod priodol ystyried os yw peidio â datgelu gwybodaeth yn gyfiawn o dan unrhyw un o'r seiliau uchod lle:

(i) mae'r wybodaeth honno yn berthnasol i, neu gellir ei ddefnyddio mewn, unrhyw achos disgyblaethol gwirioneddol neu all ddod neu achos perfformiad anfoddhaol

(ii) gall datgelu'r wybodaeth honno arwain at lygru tystiolaeth tystion yn ystod y fath achos

(iii) gall datgelu'r wybodaeth honno ragfarnu lles neu ddiogelwch unrhyw drydydd parti

(iv) mae'r wybodaeth honno'n gyfystyr â gwybodaeth droseddol

## Adran 13 y Cyfarwyddyd Statudol: Apeliadau

### *Apêl yn erbyn peidio â chofnodi cwyn*[40]

4.34 Nid oes hawl i apêl yn erbyn methiant gan yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Swyddfa Gartref i gofnodi cwyn neu i hysbysu'r awdurdod cywir priodol am y gŵyn

### *Apeliadau yn erbyn ymchwiliad*

4.35 Mae gan yr achwynydd yr hawliau apêl canlynol i'r corff apêl perthnasol:

(a) hawl i apêl ar y seiliau na ddarparwyd gwybodaeth ddigonol i'r achwynydd

i. am ganfyddiadau'r ymchwiliadau; neu

ii. am unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod priodol sy'n ymwneud â chymryd camau gweithredu (neu beidio) mewn perthynas ag unrhyw faterion y delir â nhw yn adroddiad yr ymchwiliad

(b) hawl i apêl yn erbyn canfyddiadau'r ymchwiliad

(c) hawl i apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod priodol bod gan berson y mae’r ymchwiliad yn ymwneud ag ef achos i’w ateb neu fod perfformiad person o’r fath yn anfoddhaol, neu nad yw, mewn perthynas ag ymddygiad y person hwnnw neu nad oes ganddo achos i’w ateb

[40] Rheoliad 21, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

(d) hawl i apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod priodol yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod priodol yn ymwneud â chymryd camau gweithredu (neu beidio) mewn perthynas ag unrhyw faterion yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad; a

(e) hawl i apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod priodol o dan reoliad 68(2)(a) o ganlyniad ohono nad yw'n ofynnol i anfon copi o'r adroddiad at y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus[41]

[41] Rheoliad 71, Rheoliadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Cwynion a Chamymddwyn) 2013.

**Atodiad 1 - Diffiniadau o feini prawf atgyfeirio (cymerir o Gyfarwyddyd Statudol y SAYH i Wasanaeth yr Heddlu ar Ymdrin â Chwynion tt 44 - 47)**

**Ymosodiad difrifol**

8.7 Mae 'ymosodiad difrifol' yn ymddygiad sy'n arwain at anaf sy'n golygu niwed corfforol gwirioneddol neu anaf mwy difrifol.

8.8 Dehonglir 'ymosodiad difrifol' yn unol â'r gyfraith ar yr hyn sy'n golygu ymosodiad yn achosi niwed corfforol gwirioneddol yn groes i Adran 47 o'r Ddeddf Troseddau Corfforol 1861. Cyflawnir y drosedd pan fydd person yn ymosod ar un arall, gan achosi gwir niwed corfforol i'r person arall hwnnw. Un ffactor mewn cyfraith sy'n gwahaniaethu rhwng cyhuddiad o dan Adran 39 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (ymosodiad cyffredin) o un o dan Adran 47 yw graddau'r anaf. Dylid defnyddio canllawiau cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar y safonau cyhuddo ar gyfer y drosedd o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol wrth benderfynu os yw trosedd yn un o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol yn hytrach nag ymosodiad cyffredin.

8.9 Mae'n rhaid i unrhyw ymdrech, anogaeth neu gynllwyn i gyflawni unrhyw drosedd y cyfeirir ati uchod hefyd gael ei hatgyfeirio at y SAYH[42].

8.10 Lle mae unigolyn yn cael ei anafu o ganlyniad i ymddygiad unigolyn yn gwasanaethu â'r heddlu, dylai lluoedd ystyried yn gyntaf os yw'r anaf yn anaf difrifol neu'n un y mae'n rhaid ei hatgyfeirio. Os nad yw, dylent ofyn i'w hunain os oes unrhyw beth am yr ymddygiad neu'r amgylchiadau lle cafodd yr anaf ei ddioddef sy'n pwyntio at yr angen am atgyfeiriad gwirfoddol. Ar gyfer anafiadau sy'n digwydd cyn gynted â bod unigolyn yn y ddalfa, mae'r trothwy ar gyfer grym i fod yn angenrheidiol neu'n gymesur yn uwch.

**Troseddau rhywiol difrifol**

8.11 Mae'r term 'troseddau rhywiol difrifol' yn cynnwys:

- mae'n rhaid i'r holl droseddau o dan y Deddfau Troseddau Rhywiol 1956 i 2003 gael eu profi yn Llys y Goron; neu
- unrhyw droseddau eraill o dan y Deddfau hyn sy'n ymddangos, i awdurdod priodol, i fod yn drosedd y byddai'r unigolyn dan sylw, os caiff ei euogfarnu, yn debygol o dderbyn dedfryd o fwy na chwe mis.

8.12 Mae'n rhaid i unrhyw ymdrech, anogaeth neu gynllwyn i gyflawni unrhyw drosedd y cyfeirir ati uchod hefyd gael ei hatgyfeirio at y SAYH.

---

[42] Mae cyfeiriadau yn y darn hwn at yr IPCC gan fod y Cyfarwyddyd Statudol wedi cael ei gyhoeddi yn 2015 cyn i'r IPCC ddod yn SAYH. Fodd bynnag, dylai unrhyw gyfeiriad at yr IPCC gael ei

ddarllen fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y SAYH.

**Llygredd difrifol**

8.13 Mae'r term llygredd difrifol yn cyfeirio at ymddygiad sy'n cynnwys:

- unrhyw ymdrech i wyrdroi cwrs cyfiawnder neu unrhyw ymddygiad sy'n deygol o niweidio'n ddifrifol weinyddiaeth cyfiawnder, yn enwedig y system cyfiawnder troseddol;
- taliadau neu fuddion eraill neu ffafrau a dderbyniwyd mewn cysylltiad â pherfformiad dyletswyddau yn golygu trosedd y byddai'r unigolyndan sylw, pe byddai'n cael ei euogfarnu, yn debygol o dderbyn dedfryd o fwy na chwe mis;
- camddefnyddio awdurdod;
- rheolwr llwgr, trafodwr neu berthnasoedd ffynhonnell wybodaeth gudd (CHIS);
- darpariaeth gwybodaeth gyfrinachol yn gyfnewid am daliad neu fuddion eraill neu ffafrau lle mae'r ymddygiad yn mynd y tu hwnt i erlyniad posibl am drosedd o dan Adran 55 o'r Ddeddf Diogelu Data 1998;
- tyniad a chyflenwad cyffuriau dan reolaeth a feddiannwyd, gynnau neu ddeunydd arall; neu
- ymdrechion neu gynllwyniau i wneud unrhyw un o'r uchod.

8.14 Mae'r gyfraith yn gofyn bod honiadau o lygredd difrifol yn cael eu hatgyfeirio at yr IPCC heb oedi. Nid yw'n briodol felly i aros hyd bod digon o wybodaeth cyn gwneud arestiad.

8.15 Lle mae honiad o lygredd difrifol yn cael ei wneud neu fod llygredd difrifol posibl yn cael ei adnabod gall hyn ofyn am ymchwiliad cudd. Ni ddylai hyn atal nac oedi atgyfeiriad at yr IPCC.

8.16 Mae'r IPCC yn disgwyl i achosion cudd gael eu hatgyfeirio os oes unrhyw un o'r ffactorau canlynol yn bresennol:

- amheuaeth resymol fod camwedd troseddol wedi cael ei gyflawni
- mae'r ymchwiliad wedi symud i gam gweithrediadol
- mae tactegau ymwthiol cudd ar fin cael eu defnyddio
- mae'r honiadau yn eithriadol o sensitif neu'n debygol o gael effaith andwyol ar hyder cyhoeddus

8.17 Os nad yw'n eglur os yw unrhyw un o'r ffactorau hyn yn bresennol dylai'r achos gael ei drafod â'r IPCC i sefydlu os yw atgyfeiriad yn angenrheidiol.

**Camweddau troseddol ac ymddygiad sy'n debygol o arwain at achos camymddwyn ac sydd yn y naill achos neu'r llall yn cael ei waethygu gan ymddygiad gwahaniaethol**

8.18 Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw gamwedd troseddol neu ymddygiad arall sy'n debygol o arwain at achos camymddwyn sy'n cael ei waethygu gan wahaniaethu ar sail:

- oedran
- anabledd
- ailddynodi rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw, neu
- gyfeiriadedd rhywiol unigolyn

8.19 Gall ffurf y gwahaniaethu honedig fod yn uniongyrchol trwy iaith neu ymddygiad, er enghraifft, y defnydd o eiriau gwahaniaethol neu'r defnydd o stereoteipiau i ddisgrifio unigolion. Gall yr achwynydd neu unigolyn â diddordeb honni bod y camwedd troseddol neu ymddygiad wedi cael ei gymell gan wahaniaethu. Gall ef neu hi honni triniaeth sy'n golygu gwahaniaethu o gymharu â'r driniaeth a roddir i eraill. Er nad mater i'r achwynydd yw profi bod yr unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu wedi gwahaniaethu yn ei erbyn ef neu hi mae'n bwysig wrth godi honiadau am y driniaeth y derbyniodd ef neu hi ei fod ef neu hi yn gallu adnabod (lle'n bosibl) sut roedd y driniaeth honno'n wahaniaethol. Dylai'r unigolyn sy'n ymdrin â'r mater annog yr achwynydd neu'r unigolyn â diddordeb i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch pam mae'n ystyried ei fod/bod wedi dioddef gwahaniaethu. Mae yr un mor bosibl nad yw'r achwynydd yn honni gwahaniaethu, ond bod yr ymchwiliwr yn credu bod gwahaniaethu yn ffactor.

**Trosedd berthnasol**

| |
|---|
| Mae 'trosedd berthnasol' yn cael ei ddiffinio fel unrhyw drosedd mae'r ddedfryd wedi cael ei osod ar ei chyfer trwy gyfraith y gall unigolyn 18 oed a throsodd (heb ei euogfarnu o'r blaen) gael ei ddedfrydu i garchar am saith mlynedd neu ragor (gan eithrio unrhyw gyfyngiadau a osodir gan Adran 33 Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980).<br>Rheoliad 1, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |

**Atodiad 2 - Darpariaethau cyfatebol yn y PRA a Rheoliadau'r Heddlu a'r Rheoliadau NCA**

Mae'r tabl canlynol yn darparu'r darpariaethau cyfatebol yn *Neddf Diwygio'r Heddlu 2002* (yn union cyn gwelliannau a wneir gan *Ddeddf Plismona a Throseddu 2017*, a ddechreuodd ar 1 Chwefror 2020), a rheoliadau cysylltiedig ar gyfer pob un o'r Rheoliadau NCA i gynorthwyo â chymhwyso Cyfarwyddyd Statudol y SAYH yn ymarferol.

| **Rheoliad NCA** | **Darpariaeth gyfatebol** |
|---|---|
| 1. Dechreuad y dyfyniadau a'u maint | ddim yn gymwys |
| 2. Dehongliad | Rheoliad 1, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 ac Adran 29, PRA |
| 3. Darpariaethau diddymu a thrawsnewid | ddim yn gymwys |
| 4. Cymhwysiad: cyffredinol | Adran 12, PRA |
| 5. Cymhwysiad Deddf 2002 | Mae'n gymwys i adrannau:<br>• 9 (Comisiwn CwynionAnnibynnol yr Heddlu),<br>• 19 (defnydd o bwerau ymchwiliol gan neu ar ran y Comisiwn),<br>• (pŵer y Comisiwn i gyhoeddi cyfarwyddyd),<br>• 24 (ymgynghoriad ar reoliadau), rheoliadau a wneir o dan adran 27 ac Atodlen 2 o'r PRA |
| 6. Swyddogaethau cyffredinol y Comisiwn o dan y Rheoliadau hyn | PRA, Adran 10 |
| 7. Adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol | PRA, Adran 11 |
| 8. Cwynion, materion ac unigolion mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt | PRA, Adrannau 12 a 29 |
| 9. Dyletswyddau cyffredinol yr Ysgrifennydd Parhaol, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ymchwilwyr | PRA, Adran 15 |
| 10. Taliad ar gyfer cymorth ag ymchwiliadau | PRA, Adran 16 |
| 11. Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn | PRA, Adran 17 |
| 12. Archwilio eiddo ar ran y Comisiwn | PRA, Adran 18 |

| | |
|---|---|
| 13. Dyletswydd i gadw'r achwynydd yn wybodus | PRA, Adran 20 |
| 14. Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i unigolion eraill | PRA, Adran 21 a rheoliad 12-13, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 15. Dull mae dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth i fod i gael eu perfformio ynddo | Rheoliad 12, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn 2012 |
| 16. Eithriadau i'r ddyletswydd i gadw'r achwynydd yn wybodus ac i ddarparu gwybodaeth i unigolion eraill | Rheoliad 13, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 17. Dyletswyddau i gadw tystiolaeth yn ymwneud â chwynion | PRA, Atodlen 3 para1 |
| 18. Ymdrin cychwynnol â chwynion a'u cofnodi | PRA, Atodlen 3 para 2 |
| 19. Copïau o gwynion, ac ati | Rheoliad 15, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 20. Cofnodi cwynion | Rheoliad 3, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 21. Methiannau i hysbysu neu gofnodi cwyn | PRA, Atodlen 3 para 3 |
| 22. Cyfeirnod cwynion i'r Comisiwn | PRA, Atodlen 3 para 4 & rheoliad 4, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 23. Dyletswyddau'r Comisiwn ar gyfeirnodau o dan reoliad 22 | PRA, Atodlen 3 para 5 |
| 24. Ymdrin â chwynion gan yr awdurdod priodol | PRA, Atodlen 3 para 6 |
| 25. Datgymhwyso gofynion y Rheoliadau hyn | PRA, Atodlen 3 para 7 & rheoliad 5, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 26. Datrysiad lleol o gwynion | PRA, Atodlen 3 para 8 a rheoliad 6, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 27. Apeliadau yn ymwneud â chwynion yr ymdriniwyd â nhw ac eithrio trwy ymchwiliad | PRA, Atodlen 3 para 8A |
| 28. Materion ymddygiad yn codi mewn achos sifil | PRA, Atodlen 3 para10 |

| | |
|---|---|
| 29. Cofnodi ac ati materion ymddygiad mewn achosion eraill | PRA, Atodlen 3 para 11 & rheoliad 7, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 30. Materion ymddygiad nad ydynt yn ofynnol i gael eu cofnodi | Rheoliad 7(2) a (3), Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012, PRA Atodlen 3 para<br>10(4A) and 11(3B), |
| 31. Dyletswyddau i gadw tystiolaeth yn ymwneud â chwynion | PRA, Atodlen 3 para 12 |
| 32. Cyfeirio materion ymddygiad i'r Comisiwn | PRA, Atodlen 3, para 13 & rheoliad 7(4) a (5), Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a<br>Chamymddwyn) 2012 |
| 33. Dyletswyddau'r Comisiwn ar gyfeiradau o dan reoliad 28 | PRA, Atodlen 3 para 14 |
| 34. Dyletswydd i gofnodi materion DSI | PRA, Atodlen 3 para 14A |
| 35. Dyletswydd i gadw tystiolaeth yn ymwneud â materion DSI | PRA, Atodlen 3 para 14B |
| 36. Cyfeirio materion DSI<br>i'rComisiwn | PRA, Atodlen 3 para 14c a rheoliad 8, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 37. Dyletswyddau'r Comisiwn ar gyfeiradauo dan reoliad 36 | PRA, Atodlen 3 para 14D |
| 38. Pŵer y Comisiwn i bennu ffurf ymchwiliad | PRA, Atodlen 3 para 15 |
| 39. Penodiad unigolion i gyflawniymchwiliad | Rheoliad 24, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 40. Cwynion a dynnwyd yn ôl | Rheoliad 21, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 41. Ymchwiliadau gan yr awdurdod priodol ar ei ran ei hun | PRA, Atodlen 3 para 16 |
| 42. Ymchwiliadau a oruchwylir gan y Comisiwn | PRA, Atodlen 3 para 17, rheoliad 9 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 43. Ymchwiliadau a oruchwylir gan y Comisiwn | PRA, Atodlen 3 para 18 |
| 44. Ymchwiliadau gan y Comisiwn ei hun | PRA, Atodlen 3, para 19 |

| | |
|---|---|
| 45. Cyfuno a hollti ymchwiliadau | Rheoliad 25, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 46. Gollwng goruchwyliaeth neu reolaeth y Comisiwn o ymchwiliad | Rheoliad 26, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 47. Amgylchiadau y gellir atal ymchwiliad neu weithdrefn arall ynddynt | Rheoliad 22, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 48. Ailddechrau ymchwiliad ar ôl achos troseddol | Rheoliad 23, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 49. Gweithdrefn arbennig: asesiad o ddifrifoldeb ymddygiad o dan ymchwiliad | PRA, Atodlen 3, para 19B, rheoliad 16 a 18), Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 50. Dyletswydd i ystyried cyflwyniadau gan unigolyn y mae ei ymddygiad yn cael ei ymchwilio | PRA, Atodlen 3, para 19C |
| 51. Cyfweliad ag unigolyn y mae ei ymddygiad yn cael ei ymchwilio | PRA, Atodlen 3 para 19D, rheoliad 19, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 52. Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth benodol i awdurdod priodol | PRA, Atodlen 3, para 19E |
| 53. Ffrind NCA | Rheoliad 17, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 54. Cyfweld y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu swyddog NCA yn ystod ymchwiliadau penodol | PRA, Atodlen 3, para 19B, rheoliad 1 a 2, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion ac Ymddygiad) 2013 |
| 55. Cyfyngiadau ar achos yn disgwyl i ymchwiliad ddod i ben | PRA, Atodlen 3, para 20 |
| 56. Gweithdrefn gyflymach mewn achosion arbennig | PRA, Atodlen 3, para 20A |
| 57. Ymchwiliadau a reolir neu a gyflawnir gan y Comisiwn: gweithredu gan awdurdod priodol | PRA, Atodlen 3, para 20B |
| 58. a 59 Ymchwiliadau a reolir neu a gyflawnir gan y Comisiwn: gweithredu gan y Comisiwn | PRA, Atodlen 3, para 20C a 20D |
| 60. a 61 Ymchwiliadau eraill: gweithredu gan awdurdod priodol | PRA, Atodlen 3, para 20E a 20F |

| | |
|---|---|
| 62. a 63 Achosion arbennig: argymhelliad neu gyfarwyddyd y Comisiwn | PRA, Atodlen 3, para 20H a 20I |
| 64. Pŵer i derfynu ymchwiliad | PRA, Atodlen 3 para 21 a rheoliad 10, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 65. Gweithdrefnau lle datgelir mater ymddygiad yn ystod ymchwiliad o fater DSI | PRA, Atodlen 3, para 21A |
| 66. Adroddiadau terfynol ar ymchwiliadau: cwynion, materion ymddygiad a materion penodol DSI | PRA, Atodlen 3 para 22, rheoliad 20 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 67. Gweithredu gan y Comisiwn mewn ymateb i adroddiad ymchwiliad o dan reoliad 66 | PRA, Atodlen 3 para 23 |
| 68. Gweithredu gan yr awdurdod priodol mewn ymateb i adroddiad ymchwiliad o dan reoliad 66 | PRA, Atodlen 3 para 24 |
| 69. Adroddiadau terfynol ar ymchwiliadau: materionDSI eraill | PRA, Atodlen 3 para 24A |
| 70. Gweithredu gan y Comisiwn mewn ymateb i adroddiad ymchwiliad o dan reoliad 69 | PRA, Atodlen 3, para 24 24B & 24C |
| 71. Apeliadau ynghylch ymchwiliad | PRA, Atodlen 3 para 25 |
| 72. Adolygiadau ac ail-ymchwiliadau yn dilyn apêl | PRA, Atodlen 3 para 26 |
| 73. Dyletswyddau ynghylch achos disgyblu | PRA, Atodlen 3 para 27 |
| 74. Gwybodaeth i achwynydd am achos disgyblu | PRA, Atodlen 3, para 28 |
| 75. Cwynion neu faterion ymddygiad yn ymwneud ag unigolyn sydd wedi peidio â bod yn Gyfarwyddwr Cyffredinol neu'n swyddog NCA wedi hynny | Rheoliad 27, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 76. Cwynion neu faterion ymddygiad ynghylch unigolyn nad yw ei hunaniaeth wedi ei hadnabod | Rheoliad 28, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 77. Hysbysiad gweithredoedd a phenderfyniadau | Rheoliad 29, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |

| | |
|---|---|
| 78. Cadw cofnodion | Rheoliad 31, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 79. Cofrestr i'w chadw gan y Comisiwn | Rheoliad 32, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 80. Dirprwyo pwerau a dyletswyddau gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol | Rheoliad 33, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 81. Dull a therfynau amser hysbysiadau | Rheoliad 34, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) 2012 |
| 82. Apeliadau | Rheoliad 11, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 |
| 83. Corff apêl perthnasol | PRA, Atodlen 3 paragraffau 30-32, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion aChamymddwyn) Rheoliadau 2012 |

Medi 2020